
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1109 (Cy. 265)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol, Atebolrwydd
Gweithredwyr a Gwybodaeth
Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr)
(Cymru) (Diwygiadau Amrywiol)
(Rhif 3) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/40 (Cy. 11)) ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor.

Mae rheoliadau 3, 6 ac 8 yn gwneud darpariaeth i ddileu Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), sy'n cynnwys gwledydd y cyfeirir atynt yn gyffredin fel gwledydd 'rhestr werdd', a chyfeiriadau at yr Atodlen honno, o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i reoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gynnwys ychwanegu at y rhestr o wledydd perthnasol

ym mharagraff (11) a chyflwyno gwledydd a thiriogaethau perthnasol pellach ym mharagraff newydd (12).

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 6A (gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn esemptio teithiwr rheoliad 2A o ofynion y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 7 yn gwneud diwygiadau i'r gofynion sy'n gymwys i ddarparwyr profion preifat ym mharagraffau 1ZA a 2ZA o Atodlen 1C.

Mae rheoliad 9 yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddiweddarau'r rhestr o ddiwyddiadau chwaraeon penodedig. Caiff unigolyn adael ynysiad er mwyn cystadlu neu hyfforddi, neu ddarparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu, mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4.

Mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol ("gweithredwyr") sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin. O ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan y Rheoliadau hyn, mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr. O ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan y Rheoliadau hyn, mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r wybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig y mae rhaid i weithredwyr ei darparu i deithwyr cyn iddynt deithio i Gymru ac wrth iddynt deithio i Gymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1109 (Cy. 265)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol, Atebolrwydd
Gweithredwyr a Gwybodaeth
Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr)
(Cymru) (Diwygiadau Amrywiol)
(Rhif 3) 2021

Gwnaed am 1.35 p.m. ar 1 Hydref 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru am 4.00 p.m. ar 1 Hydref 2021

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 4 Hydref 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 4 Hydref 2021.

RHAN 2

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 9.

Diwygiadau i reoliad 2

3. Yn rheoliad 2 (dehongli cyffredinol)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o “gwlad neu diriogaeth esempt” rhodder—

“ystyr “gwlad neu diriogaeth esempt” (*“exempt country or territory”*) yw gwlad neu diriogaeth o fewn yr ardal deithio gyffredin, ac mae unrhyw gyfeiriad at “gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt” (*“non-exempt country or territory”*) i'w ddehongli yn unol â hynny;”;

(b) ym mharagraff (4), hepgorer “(o fewn ystyr rheoliad 9(1))”.

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208), O.S. 2021/926 (Cy. 211), O.S. 2021/967 (Cy. 227) ac O.S. 2021/1063 (Cy. 250).

Diwygiadau i reoliad 2A

4.—(1) Mae rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)(c)—

(a) ar ôl paragraff (ii) hepgorer “neu”;

(b) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

“neu

(iv) tystysgrif brechlyn,”.

(3) Ym mharagraff (7), yn lle “paragraffau (3) a (6)” rhodder “paragraff (3)”.

(4) Ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

“(7A) At ddibenion paragraff (3), pan fo P wedi cael dos o un brechlyn awdurdodedig a dos o frechlyn awdurdodedig gwahanol, bernir bod P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig.

(7B) At ddibenion paragraff (6), mae P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn os yw P wedi cael y cwrs cyflawn o ddosau o'r brechlyn fel y'i pennir yng nghanllawiau'r gweithgynhyrhydd ar gyfer y brechlyn hwnnw.”

(5) Ym mharagraff (8), yn lle “cael”, yn yr ail le y mae'n digwydd, rhodder “cwblhau”.

(6) Ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

“(8A) At ddibenion paragraff (6), pan fo P wedi cael dos o un brechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor, a dos o frechlyn gwahanol o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor, bernir bod P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor.”

(7) Ym mharagraff (10)—

(a) yn lle'r diffiniad o “brechlyn awdurdodedig” rhodder—

“ystyr “brechlyn awdurdodedig” (“*authorised vaccine*”) yw cynnyrch meddyginiaethol ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws a awdurdodwyd—

(a) mewn perthynas â dosau a geir yn y Deyrnas Unedig—

(i) i'w gyflenwi yn y Deyrnas Unedig yn unol ag awdurdodiad marchnata, neu

(ii) gan yr awdurdod trwyddedu ar sail dros dro o dan reoliad 174 o

Reoliadau Meddyginiaethau
Dynol 2012(1);

- (b) mewn perthynas â dosau a geir mewn gwlad berthnasol a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl ym mharagraff (11), i'w gyflenwi yn y wlad honno yn dilyn gwerthusiad gan y rheoleiddiwr perthnasol ar gyfer y wlad;
 - (c) mewn perthynas â dosau a geir mewn gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12), yn unol â pharagraff (a);”;
- (b) yn lle'r diffiniad o “awdurdodiad marchnata” rhodder—
- “ystyr “awdurdodiad marchnata” (“*marketing authorisation*”)—
- (a) mewn perthynas â brechlyn a awdurdodwyd i'w gyflenwi yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth, yw'r ystyr a roddir i “marketing authorisation” yn rheoliad 8(1) (dehongli cyffredinol) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;
 - (b) mewn perthynas â brechlyn a awdurdodwyd i'w gyflenwi mewn gwlad berthnasol a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl ym mharagraff (11) ac eithrio Aelod-wladwriaeth, yw awdurdodiad marchnata a roddwyd gan y rheoleiddiwr perthnasol ar gyfer y wlad;”;
- (c) yn lle'r diffiniad o “gwlad berthnasol” rhodder—
- “ystyr “gwlad berthnasol” (“*relevant country*”) yw gwlad neu diriogaeth a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl ym mharagraff (11) neu wlad neu diriogaeth a restrir ym mharagraff (12);”;
- (d) yn y lle priodol, mewnosoder—
- “ystyr “tystysgrif brechlyn” (“*vaccine certificate*”) yw tystysgrif mewn Saesneg, Ffrangeg neu Sbaeneg a ddyroddir gan awdurdod iechyd cymwys gwlad berthnasol sy'n cynnwys—
- (a) enw llawn P;
 - (b) dyddiad geni P;
 - (c) enw a gweithgynhyrchydd y brechlyn y mae P wedi ei gael;
 - (d) y dyddiad y cafodd P bob dos o'r brechlyn;

(1) O.S. 2012/1916.

(e) manylion ynghylch naill ai pwy yw dyroddwr y dystysgrif neu'r wlad y rhoddwyd y brechlyn ynddi, neu'r ddau."

(8) Yn y tabl ym mharagraff (11), yn y lle priodol—

(a) yn y golofn gyntaf (y wlad berthnasol), mewnosoder "Awstralia" ac yn yr ail golofn (y rheoleiddiwr perthnasol) ar yr un rhes, mewnosoder "Y Weinyddiaeth Nwyddau Therapiwtig";

(b) yn y golofn gyntaf (y wlad berthnasol), mewnosoder "Canada" ac yn yr ail golofn (y rheoleiddiwr perthnasol), mewnosoder "Iechyd Canada".

(9) Ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

"(12) Y gwledydd a'r tiriogaethau y cyfeirir atynt yn y diffiniad o "gwlad berthnasol" yw—

Antigua a Barbuda

Bahrain

Barbados

Brunei

De Korea

Dominica

Yr Emiradau Arabaidd Unedig

Israel

Japan

Kuwait

Malaysia

Qatar

Saudi Arabia

Seland Newydd

Singapore

Taiwan".

Diwygiadau i reoliad 6A

5. Yn rheoliad 6A (gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol)—

(a) ym mharagraff (4)(d), yn lle "." rhodder ";;";

(b) ar ôl paragraff (4)(d) mewnosoder—

"(e) person sy'n deithiwr rheoliad 2A."

Diwygiad i reoliad 6AB

6. Yn lle rheoliad 6AB(2)(d)(ii) rhodder—

"(ii) mewn cysylltiad â theithiwr rheoliad 2A, archeb ar gyfer prawf diwrnod 2."

Diwygiadau i Atodlen 1C

7. Yn Atodlen 1C (profi mandadol ar ôl cyrraedd Cymru)—

- (a) ym mharagraff 1ZA(1) (profion diwrnod 2: gofynion o ran darparwr prawf preifat), ar ôl paragraff (l) mewnosoder—

“(la) pan—

- (i) bo sampl i’w dilyniannu yn unol â pharagraff (l), a
- (ii) bo’r dilyniannu i ddigwydd mewn labordy (“y labordy dilyniannu”) ac eithrio’r labordy y proseswyd y sampl ynddo yn y lle cyntaf (“y labordy diagnostig”),

pan fo’n sicrhau bod y labordy dilyniannu yn cael y sampl heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i’r labordy diagnostig ddod i wybod am ganlyniad y prosesu cychwynnol;”;

- (b) ym mharagraff 2ZA(1) (profion diwrnod 8: gofynion o ran darparwr prawf preifat), ar ôl paragraff (h) mewnosoder—

“(ha) pan—

- (i) bo sampl i’w dilyniannu yn unol â pharagraff (h), a
- (ii) bo’r dilyniannu i ddigwydd mewn labordy (“y labordy dilyniannu”) ac eithrio’r labordy y proseswyd y sampl ynddo yn y lle cyntaf (“y labordy diagnostig”),

pan fo’n sicrhau bod y labordy dilyniannu yn cael y sampl heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i’r labordy diagnostig ddod i wybod am ganlyniad y prosesu cychwynnol;”.

Hepgor Atodlen 3

8. Hepgorer Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin).

Diwygiad i Atodlen 4

9. Yn Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig), ar y diwedd mewnosoder—

“Saethu Targedau:
Pencampwriaethau Agored Dryll
Aer Cymru
Badminton: Pencampwriaethau
Badminton Rhyngwladol Cymru
VICTOR

Gymnasteg: Pencampwriaethau
Gogledd Ewrop”.

RHAN 3

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion
cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr)
(Cymru) (Diwygio) 2021

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

10. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws,
Teithio Rhyngwladol, Profion Cyn Ymadael ac
Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio)
2021⁽¹⁾ wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 11 a 12.

Diwygiad i reoliad 4

11. Yn rheoliad 4 (dehongli), yn y lle priodol
mewnosoder—

“mae i “teithiwr rheoliad 2A” (“*regulation
2A traveller*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad
2A o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;”.

Diwygiadau i reoliad 5C

12. Yn rheoliad 5C (gofyniad i wirio statws
brechu)—

- (a) ym mharagraff (1), ar ôl “teithiwr Atodlen
3A” mewnosoder “neu deithiwr rheoliad 2A
sydd wedi ei wirhau”;
- (b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr “teithiwr
rheoliad 2A sydd wedi ei wirhau” yw teithiwr
rheoliad 2A y dangosir ei statws brechu ar
gyfleuster y cyfeirir ato yn rheoliad 4(1) o’r
Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel “Vaccine
Status: Verified Full/Exempt”.”

(1) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18),
O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/584
(Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S.
2021/915 (Cy. 208) ac O.S. 2021/926 (Cy. 211).

RHAN 4

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd
ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.)
2020

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

13. Yn lle'r Atodlen i Reoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar
gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(1)
rhodder—

“YR ATODLEN

Rheoliadau 3, 3A a 4

Rhan 1

Yr wybodaeth sydd i'w darparu at ddibenion
rheoliadau 3(2)(a)(i), 3(2)(b)(i), 3(2)(c)(i),
3A(4)(b)(i) a 3A(4)(c) yw—

“Essential information to enter Wales from overseas

Fill in your Passenger Locator Form before
arrival. You must declare all countries you have
visited or transited through in the 10 days prior
to your arrival on your Passenger Locator Form.

Before departure, check the list of red list of
countries, as the list can change regularly.

*Red list passengers (including passengers who
are fully vaccinated)*

1. Provide proof of a negative COVID-19 test
taken within 3 days of departure to Wales
2. Book a managed quarantine package
3. Complete a Passenger Locator Form

You can only enter if you are a British or Irish
National, or you have residency rights in the

(1) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/1118 (Cy. 253), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/457 (Cy. 145), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/765 (Cy. 187) ac O.S. 2021/863 (Cy. 202).

UK. You must enter through a designated port and quarantine in a government approved hotel for 10 days.

Unvaccinated passengers or passengers vaccinated with unauthorised vaccines who are not red list passengers

1. Provide proof of a negative COVID-19 test taken within 3 days of departure to Wales
2. Book tests for day 2 and 8
3. Complete a Passenger Locator Form
4. Make plans to self-quarantine in private accommodation for 10 full days after arrival (or full duration of stay if less than 10 days)

Fully vaccinated passengers who are not red list passengers

1. Book a test for day 2
2. Complete a Passenger Locator Form
3. Have evidence of your vaccination status with you during travel

These measures apply to all persons (including UK nationals and residents) arriving in Wales from outside the common travel area comprising the United Kingdom, Ireland, the Isle of Man, and the Channel Islands. The British Overseas Territories are not in the common travel area. Public health requirements may vary depending upon in which nation of the UK you are staying.

England: <https://www.gov.uk/uk-border-control>

Northern Ireland: <https://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-international-travel-advice>

Scotland: <https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-international-travel-quarantine/pages/overview/>

Wales: <https://gov.wales/travelrules>

Failure to comply with these measures is a criminal offence and you could be fined. There are a limited set of exemptions from these measures. Check the list of exemptions carefully. You may be fined if you fraudulently claim an exemption.

Rhan 2

Y datganiad sydd i'w ddarparu at ddibenion rheoliad 4 yw—

(a) y fersiwn Gymraeg—

“Dyma neges iechyd y cyhoedd ar ran asiantaethau iechyd y cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

Oni bai eich bod wedi eich esemptio, pa mor hir bynnag yr ydych yn bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig, rhaid i bawb gymryd prawf COVID-19 a archebwyd ymlaen llaw o fewn y ddau ddiwrnod cyntaf ar ôl ichi gyrraedd, hyd yn oed os ydych wedi eich brechu'n llawn. Rhaid i deithwyr nad ydynt wedi eu brechu gymryd prawf pellach ar ddiwrnod 8 ar ôl iddynt gyrraedd a hunanynysu.

Os ydych wedi bod mewn unrhyw wledydd ar y rhestr goch, neu wedi tramwyo drwy unrhyw wledydd o'r fath, o fewn y 10 niwrnod blaenorol, rhaid ichi fynd i gwarantyn mewn cyfleuster cwarantyn a reolir am y 10 niwrnod cyntaf ar ôl ichi gyrraedd a hefyd gymryd prawf arall 8 niwrnod ar ôl ichi gyrraedd.

Symptomau'r coronafeirws yw peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu golli eich synnwyr blasu neu arogl arferol, neu newid yn eich synnwyr blasu neu arogl arferol. Os ydych yn profi unrhyw un o'r symptomau hyn, ni waeth pa mor ysgafn ydynt, fe'ch cynghorir i wneud eich hunan yn hysbys i'r criw.

Dilynwch y canllawiau Iechyd y Cyhoedd ar gyfer yr ardal yr ydych yn byw ynddi neu'n teithio ynddi.

Ewch i gov.uk/coronavirus i gael rhagor o gyngor.”;

(b) y fersiwn Saesneg—

“The following is a public health message on behalf of the UK's public health agencies.

Unless exempt, however long you intend to stay in the UK, everyone must take a pre-booked COVID-19 test within the first two days after you arrive, even if you have been fully vaccinated. Unvaccinated passengers must take a further test on day 8 after they arrive and self-quarantine.

If you have been in or transited through any countries on the red list within the previous 10 days, you must quarantine in a managed quarantine facility for the first 10 days after

arrival and also take another test 8 days after arrival.

The symptoms of coronavirus are a new continuous cough, a high temperature or a loss of, or change in, normal sense of taste or smell. If you experience any of these symptoms, however mild, you are advised to make yourself known to the crew.

Please follow the Public Health guidance for the area you are living or travelling in.

Visit [gov.uk/coronavirus](https://www.gov.uk/coronavirus) for more advice.”;

- (c) y datganiad sydd ym mharagraff (a) neu (b) wedi ei gyfieithu i iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi.”

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 1:35 p.m. ar 1 Hydref 2021